

CYMWYSTERAU 2021

Cyflwyniad

Ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y bydd arholiadau TGAU, UG, a Safon Uwch yn cael eu dileu ar gyfer Haf 2021. Ym mis Ionawr 2021, cadarnhawyd y byddai'r cymwysterau'n cael eu dyfarnu trwy ddefnyddio **Graddau wedi'u Pennu gan Ganolfannau (GPG)**. Golyga hyn fod colegau ac ysgolion yn pennu'r graddau a ddyfernir ar gyfer pob cymhwyster.

Dyluniwyd ein dull i fodloni gofynion 'Canllawiau am drefniadau ar gyfer TGAU, UG, a Safon Uwch sydd wedi'u cymeradwyo' a ddarperir gan 'Cymwysterau Cymru' (<https://www.qualificationswales.org/cymraeg/dyfarnu-2021/>), sef rheolydd cymwysterau yng Nghymru, i gynorthwyo pennu graddau 2021. Trwy ddefnyddio'r dull hwn, rydym yn gobeithio cynnig eglurder a sicrwydd i ddysgwyr, rhieni/gwarchodwyr, a'n rhanddeiliaid eraill.

Graddau wedi'u Pennu gan y Ganolfan

Caiff 'Gradd wedi'i Phennu gan y Ganolfan' ei dyfarnu gan y Coleg (fel Canolfan Arholiadau) ar sail y cyrhaeddiad a ddangoswyd mewn maes cynnwys unrhyw gymhwyster y mae'r myfyriwr wedi'i astudio.

Ar gyfer pob cymhwyster, bydd athrawon yn defnyddio Fframwaith Asesu Cymwysterau CBAC sy'n cynnwys disgrifiad o'r graddau allweddol.

Rhaid i'r graddau gael eu hategu gan dystiolaeth sy'n dangos cyrhaeddiad y dysgwr ar draws themâu a sgiliau allweddol y pwnc. Bydd y dystiolaeth hon yn amrywio fesul cymhwyster, fel y'i pennir gan ofynion Fframwaith Asesu Cymwysterau CBAC.

Ni fydd yn bosibl i athrawon, na'r Coleg, geisio rhoi 'Gradd wedi'i Phennu gan y Ganolfan' ar sail barn broffesiynol neu ar sail gallu'r myfyriwr. Mae'r dull a ddefnyddir eleni yn wahanol i'r dull a ddefnyddiwyd y llynedd. Bydd angen i athrawon ddefnyddio'u barn broffesiynol i benderfynu a ydy'r wybodaeth a'r sgiliau a ddangoswyd yn cyflawni'r safon arferol am radd benodol.

Bydd angen i'r Coleg wneud dyfarniadau 'ffit orau' wrth bennu graddau. Golyga hyn nad yw'n ofynnol i ddysgwyr arddangos pob agwedd a nodir yn y disgrifiad gradd i gael y radd honno. Lle nad oes tystiolaeth ddigonol, neu lle mae'r dystiolaeth yn awgrymu cyrhaeddiad sy'n is na'r hyn sy'n ofynnol am y radd isaf (h.y. gradd 'E' ar gyfer UG/Safon Uwch; gradd 'G' ar lefel TGAU), yna dyfernir Gradd 'U' gan y Ganolfan.

Tystiolaeth

Cynhyrchir 'Graddau wedi'u Pennu gan y Ganolfan' trwy ddarparu tystiolaeth o'r gwaith a gwblhawyd gan y dysgwr, trwy ddefnyddio cynnwys manyleb wedi'i haddasu. Wrth bennu graddau, defnyddir y dystiolaeth ganlynol ar gyfer pob cymhwyster.

Cyn-bapurau wedi'u haddasu

Defnyddiff y Coleg 'gyn-bapurau CBAC wedi'u haddasu' wrth osod tasgau asesu i geisio pennu gradd ar gyfer pob cymhwyster. Ceir buddion cydnabyddedig i ddefnydd o'r deunydd hyn. Mae'r cyn-bapurau wedi'u haddasu wedi: (1) cael sicrwydd ansawdd allanol; (2) wedi'u cefnogi'n llawn gan gynlluniau marcio clir; ac (2) yn gyfarwydd i ddysgwyr ac athrawon. Bydd athrawon yn sicrhau y caiff y cyn-bapurau hyn, sy'n ffurfio rhan allweddol o'r dystiolaeth, eu hintegreiddio wrth addysgu a dysgu, yn hytrach na'r gweithgareddau eraill a wnaed mewn gwersi.

Cyn-bapurau eraill

Defnyddiff y Coleg gyn-bapurau eraill mewn achosion lle defnyddiwyd 'cyn-bapurau wedi'u haddasu' eisoes gan ddysgwyr. Mae gan y cyn-bapurau hyn gynlluniau marcio ategol, a bydd rhain yn cael eu defnyddio gan athrawon wrth farcio'r asesiadau.

Asesiadau Di-Arholiad

Lle mae Asesiad Di-Arholiad yn parhau fel rhan o'r cymhwyster addasedig, defnyddia athrawon berfformiad y dysgwyr ar gyfer yr elfen hon sy'n cyfrannu at bennu gradd, ochr yn ochr â'r cyn-bapurau wedi'u haddasu a chwestiynau cyn-bapur eraill. Bydd athrawon yn ystyried pwysoli'r Asesiad Di-Arholiad, mewn cysylltiad â'r cymhwyster cyfan yn unol â'r fanyleb. Mewn rhai pynciau, mae gwaith ar yr 'Asesiadau Di-Arholiad' yn gyfredol ers cryn dipyn eisoes, a gallai hyn barhau dros yr wythnosau i ddod. Bydd athrawon pwnc yn cysylltu gyda dysgwyr ynglŷn â dyddiau cau'r Asesiadau Di-Arholiad (mewn pynciau lle bo'n briodol).

Asesiadau wedi'u dyfeisio gan y Ganolfan

Mewn rhai achosion, bydd y Coleg yn dyfeisio asesiadau ei hun. Gwneir hyn mewn achosion lle defnyddid pob 'cyn-bapur wedi'i addasu' a phob cyn-bapur arall y cwrs. Lle caiff 'asesiadau wedi'u dyfeisio gan y Ganolfan' eu defnyddio, rhoddir prosesau sicrwydd ansawdd a hyfforddiant perthnasol ar waith i sicrhau eu bônt yn addas i'r dysgwyr.

Tystiolaeth Asesu Arall

Gellir defnyddio (1) gwaith asesu, gan eithrio'r cyn-bapurau wedi'u haddasu; (2) cyn-bapurau eraill; (3) Asesiadau Di-Arholiad ac Asesiadau wedi'u dyfeisio gan y Ganolfan i gadarnhau'r barn a wnaed wrth benderfynu graddau. Fodd bynnag, ni ddefnyddir y dystiolaeth hyn yn unig i bennu graddau oherwydd, ar adeg ei chwblhau: mae'n bosibl na fydd dysgwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd y tasgau hyn. Caiff hyn ei gynllunio er mwyn sicrhau tegwch i bob dysgwr. Ni fydd y math hwn o dystiolaeth yn cael ei defnyddio i dynnu gradd i lawr.

Cynnal Asesiadau

Bydd dysgwyr yn cael gwybod o'u hasesiadau drwy Gynlluniau Asesu'r Pwnc. Caiff rhain eu hanfon mewn e-bost i ddysgwyr cyn y Pasg. Bydd athrawon yn integreiddio asesiadau i'w cynlluniau addysgu a dysgu arferol, a chynhelir hwy'n ystod gwersi. Sicrha athrawon y caiff dysgwyr eu hasesu ar gynnwys a astudiwyd ganddynt. Erbyn hyn, mae athrawon wedi hysbysu'r dysgwyr yn barod o'r testunau a fydd yn codi yn yr asesiadau ar ddod. Bydd y Cynlluniau Asesu'r Pwnc hefyd yn cynnwys y manylion hyn.

Bydd Cynlluniau Asesu'r Pwnc yn cynnwys asesiadau a gynhaliwyd yn ystod yr Wythnos Asesu (22-26^{ain} Chwefror). Bydd mwyafrif o'r asesiadau'n cymryd lle o'r 12^{fed} Ebrill.

Ceir tri rheswm am hyn:

- Mae dysgwyr yn ymwybodol bod yr asesiadau a wnaed yr adeg honno'n cyfrannu at eu GPG;
- Cynhelir hyn tua diwedd y cwrs, a dylai dysgwyr allu arddangos mwy o aeddfedrwydd a datblygiad mewn gwybodaeth, dealltwriaeth, ac mewn sgiliau gwahanol feysydd yr uned a/neu fanyleb; ac
- Mae'r Coleg yn gallu cymhwyso trefniadau addasedig (megis amser ychwanegol) i'r tasgau asesu.

Bydd y dystiolaeth asesu eang sy'n angenrheidiol yn amrywio fesul cymhwyster. Sicrha athrawon ddigon o gyfleoedd i ddysgwyr allu darparu tystiolaeth glir, gan arddangos eu gallu'n erbyn themâu a sgiliau allweddol, fel y nodir ym mhob Fframwaith Asesu Cymhwyster CBAC. Bydd athrawon yn sicrhau nad yw cynhyrchiad tystiolaeth yn creu dyblygiad gwaith diangen.

Er y ceid hyblygrwydd yn nifer yr asesiadau a gynhwysir yng Nghynlluniau Asesu'r Pwnc, bydd athrawon yn gosod asesiadau yn unol â gofynion arferol am asesu allanol y cwrs. Er enghraifft, mewn cyfres o arholiadau allanol arferol, mae'r arholiadau Safon Uwch Economeg yn gyfwerth â 4 ½ awr, felly dylai tasgau asesu'r cwrs hwn fod tua 4 ½ awr.

Cynhwysir hyd yr asesiad yng Nghynlluniau Asesu'r Pwnc. Cynlluniff bob asesiad, ond un, ym mhob Cynllun Asesu'r Pwnc gydag hyd amser sy'n adlewyrchu amser arferol arholiad allanol. Rhoddiff y dull hwn sicrwydd i athrawon wrth iddynt ddyfarnu graddau terfynol.

Ni ddylai dysgwyr, dan unrhyw amgylchiadau, rannu gwybodaeth sy'n ymwneud ag asesiadau dysgwyr eraill. Trinnir hyn fel achos o gamymddwyn. Os amheuir nad yw gwaith yn waith y dysgwr, bydd athrawon yn gwirio hyn trwy gynnal sesiwn 'holi ac ateb' gyda'r dysgwr. Os, ar ôl y sesiwn, parha'r athro/athrawes i amau camymddwyn, cynhelir ymchwiliad yn unol â pholi a gweithdrefnau camymddwyn y Coleg. Bydd gwybodaeth am baratoi ar gyfer yr asesiadau'n cael ei hanfon i ddysgwyr dros y diwrnodau nesaf, sydd hefyd yn cynnwys manylion am gamymddwyn.

O'r 12^{fed} Ebrill, ni rhennir adborth ar asesiadau unigol, (sy'n cynnwys eu gradd asesu) gyda'r dysgwyr. Bydd athrawon yn cadw ac yn storio'r dystiolaeth asesu hon yn ddiogel, ar gyfer graddio ym mis Mai. Rhoddir adborth generig ar sail pob asesiad, i aelodau dosbarth, ar ffurf cryfderau a'r meysydd i'w datblygu, gan fod hyn yn nodwedd arfer addysgu a dysgu da.

Asesir gwaith y dysgwyr trwy ddefnyddio cynlluniau marcio CBAC, a bydd croes-farcio'n cael ei wneud fel rhan o broses sicrhau ansawdd y Coleg.

Sicrwydd Ansawdd

Mae CBAC yn gofyn bod prosesau sicrwydd ansawdd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau cywirdeb a hyrwyddo cysondeb. Bydd y Coleg yn cynnal prosesau safoni a sicrhau ansawdd trwyadl er mwyn

diogelu graddau sy'n ddilys, dibynadwy, a theg. Wrth ddatblygu'n dull, mae'r Coleg wedi cymryd camau i sicrhau ein bod yn cyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Recordio Graddau

Bydd y Coleg yn cadw cofnod sy'n nodi'n glir y rhesymeg dros benderfynu graddau. Bydd hyn yn cynnwys eglurhad i ddysgwyr a'u rhieni/gwarchodwyr. Bydd y cofnodion hyn yn manylu pwys asesodd y dystiolaeth a phryd; y penderfyniad a gymerwyd; nodi unrhyw addasiadau rhesymol neu ystyriaeth arbennig a wnaed, a ble mae'r dystiolaeth yn cael ei storio'n ddiogel. Ar ôl cyflwyno 'Graddau wedi'u pennu gan y Ganolfan', bydd gofyn i'r Coleg wneud datganiad cyffredinol ynghylch y prosesau a wnaed.

Apeliadau

Cam 1 – Adolygiad Mewnol o'r Graddau wedi'u Pennu gan y Ganolfan

Bydd yn ofynnol i'r Coleg gyflwyno 'Graddau wedi'u Pennu gan y Ganolfan' erbyn dyddiad penodol. Cyn y dyddiad hwn, bydd angen rhoi'r GPG dros dro i'r dysgwyr. Gall dysgwyr ofyn am adolygiad o'r radd a dyfarnwyd iddynt. Cynhaliff y Coleg adolygiad, ond ni all dystiolaeth newydd nac ychwanegol gael ei hystyried fel rhan o'r broses hon. **Nodwch: gall unrhyw addasiad gradd gael ei dynnu lan neu lawr.**

Cam 2 – Apêl i CBAC

Ar ôl diwrnod canlyniadau, gall ymgeiswyr apelio at CBAC ynghylch eu graddau. Bydd CBAC yn cynnal adolygiad. **Nodwch: gall unrhyw addasiad gradd gael ei dynnu lan neu lawr.**

Cam 3 – Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiad EPRS

Yn dilyn apêl aflwyddiannus i CBAC, gall ymgeiswyr ofyn am wasanaeth Adolygu'r Gweithdrefnau Arholiad, sef cam olaf y broses apêl.

Cwestiynau Cyffredin

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y dull a ddefnyddiwyd y llynedd i benderfynu graddau'r Ganolfan, ac eleni?

Llynedd, yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol, gwnaeth colegau ac ysgolion gau'n sydyn, ac roedd y graddau'n seiliedig ar dystiolaeth a bodolwyd eisoes. Eleni, bydd dysgwyr yn gwneud tasgau asesu sy'n darparu'r dystiolaeth hon.

Rwy'n becco nad ydym wedi gorffen y cwrs mewn rhai pynciau – sut fydd hyn yn effeithio ar fy ngradd?

Peidiwch fecso - cewch eich asesu'n unig ar gynnwys y cwrs a gwblhawyd gennych, a bydd pob asesiad yn cael ei addasu i gymryd hyn i ystyriaeth.

Rwy'n gymwys am drefniadau addasedig (e.e. amser ychwanegol, darllenydd a.y.b.). Fydd hyn yn digwydd o hyd?

Bydd, sicrhawn fod unrhyw drefniadau addasedig yn cael eu cymhwyso yn ystod eich tasgau asesu.

Beth fydd yn digwydd os rydw i'n colli asesiad oherwydd salwch, neu os bydd angen i fi hunan-ynysu?

Gwnawn drefniadau addasedig i ymgymhwyso'r amgylchiadau newidiol hyn, er mwyn i chi allu cwblhau pob asesiad.

A chaf fy asesiadau'n ôl gennych?

Na fyddwch. Bydd angen i'ch tasgau asesu (o'r 12^{fed} Ebrill) fynd trwy brosesau marcio a safoni i sicrhau cywirdeb a thegwch. Ni fydd yn bosibl ddychwelyd gwaith na marciau i ddysgwyr, gan fod angen cadw'r dystiolaeth hon a'i defnyddio fel rhan o broses sicrhau ansawdd a dyfarnu graddau.

Rwy'n becco am fy asesiadau – gyda phwy ddylai gael sgwrs?

Deallwn eich bod efallai'n bryderus yn ystod yr adeg hon. Serch hynny, trwy'ch gwaith eleni, rydych wedi'ch paratoi'n drylwyr ar gyfer yr asesiadau hyn, ac mae gennych amser o hyd i baratoi, boed yn y Coleg dan arweiniad eich athrawon, neu gartref. Os oes angen cyngor neu gymorth pellach arnoch, siaradwch â'ch athrawon neu'ch tiwtor bugeiliol.

Pryd fyddai'n gwybod fy ngradd?

Dosbarthir graddau dros dro ar Ddydd Gwener, 11^{eg} Mehefin. Dyddiad cyhoeddi Canlyniadau CBAC ar gyfer TGAU yw'r 12^{fed} Awst a'r 10^{fed} Awst ar gyfer UG/Safon Uwch.

Rwy'n astudio cymhwyster a dyfernir gan Fwrdd Arholi Saesneg – ydy'r trefniadau'n wahanol?

Ni chynigir UG/Safon Uwch Astudiaethau Ffilm gan CBAC, ond bydd dysgwyr sy'n astudio'r pwnc hwn yn dilyn yr un trefniadau â rhai'r cymwysterau CBAC. Bydd dysgwyr Safon Uwch yn y Chweched Uchaf yn derbyn Gradd wedi'i hasesu gan Athrawon (TAG), Bydd hyn yn radd gyfrannol ar sail tystiolaeth eich cyrhaeddiad yn ystod y cwrs.

Rwy'n astudio Diploma CBAC Lefel 3 mewn Troseddeg neu'r Gwyddorau Meddygol, beth fydd angen i fi wneud ar gyfer fy asesiadau?

Bydd eich asesiad dan reolaeth yn parhau, ynghyd ag unrhyw asesiad arall y cwrs. I ddysgwyr y Chweched Uchaf sy'n astudio'r Diploma, byddwch yn derbyn Gradd wedi'i hasesu gan Athrawon (TAG). Bydd hyn yn radd gyfrannol ar sail tystiolaeth eich cyrhaeddiad yn ystod y cwrs.

Rwy'n astudio cymhwyster BTEC, beth fydd angen i fi wneud ar gyfer fy asesiadau?

Parhau gyda'r aseiniadau y gofynnwyd i chi gwblhau gan eich athrawon. Bydd gofyn i'ch athrawon ddefnyddio tystiolaeth dros hyd eich cwrs BTEC i lywio gradd wedi'i hasesu gan athrawon a elwir yn Q-TAG. Bydd eich athro/athrawes yn rhoi ei f/barn gyfrannol ar sail eich asesiadau. Bydd y farn gyfrannol hon yn adlewyrchu'ch lefel cyrhaeddiad cyffredinol.

Rwy'n fyfyrwr Chweched Uchaf, beth fydd angen i fi wneud ar gyfer fy nghymhwyster Bagloriaeth Gymreig?

Dyfernir eich gradd Bagloriaeth Gymreig ar sail marciau'r Prosiect Unigol a Her o'ch dewis chi. Caiff y marciau hyn eu trosi'n farc Raddfa Marciau Unffurf a ddarperir gan CBAC. Yna fydd hyn yn arwain at ganran gyffredinol sy'n pennu'r radd a dyfernir i chi.

Fydd fy ngraddau UG yn cyfrannu at raddau Safon Uwch ar gyfer 2022?

Na fydd – fel y gwyddoch o'r wybodaeth gan 'Cymwysterau Cymru' a anfonwyd i ddysgwyr ac ar ein gwefan, ni fydd graddau UG yn cyfrannu at raddau Safon Uwch flwyddyn nesaf.

Pryd mae'r Coleg yn diweddu am y flwyddyn?

Cadarnheir y dyddiadau hyn ar ôl y Pasg, a'u rhannu gyda chi bryd hynny.